

## Atodiad B: Amserlen ar gyfer casgliadau a datganiadau data allweddol ar hyd y flwyddyn ysgol

Eitem	Dyddiad	Math	Teitl casgliad neu ddatganiad	Camau gweithredu ar gyfer 2018 <b>Parhau</b> neu <b>Dod i ben</b>
1.	Gorffennaf	Datganiad	Datganiad Cyntaf Set Ddata Graidd Cymru Gyfan o deuluoedd o ysgolion.	<b>Parhau</b> – dim newid
2.	Gorffennaf	Datganiad	Bwletin ystadegol – Canlyniadau Cyfrifiad Ysgol	<b>Parhau</b> – dim newid
3.	Gorffennaf	Datganiad	Bwletin ystadegol – Addysg Heblaw yn yr Ysgol	<b>Parhau</b> – dim newid
4.	Awst	Datganiad	Bwletin ystadegol – Asesiadau Athro CS, CA2, CA3	<b>Parhau</b> – Cynnwys i'w benderfynu gan y Prif Ystadegydd
5.	Awst	Datganiad	Bwletin ystadegol – Asesiadau Athro Di-graidd CA3	<b>Parhau</b> – Cynnwys i'w benderfynu gan y Prif Ystadegydd
6.	Awst	Datganiad	Bwletin ystadegol – Profion Cenedlaethol Cymru	<b>Parhau</b> – Cynnwys i'w benderfynu gan y Prif Ystadegydd
7.	Awst	Datganiad	Bwletin ystadegol – Presenoldeb mewn ysgolion uwchradd	<b>Parhau</b> – dim newid
8.	Canlyniad au Safon Uwch	Datganiad	Briff i'r Gweinidog, adroddiadau canlyniadau arholiadau CBAC Awdurdod Lleol	<b>Parhau</b> – dim newid
9.	Canlyniad au TGAU	Datganiad	Briff i'r Gweinidog, adroddiadau canlyniadau arholiadau CBAC Awdurdod Lleol	<b>Parhau</b> – dim newid
10.	Diwedd Awst	Datganiad	Rhyddhau Adroddiad Cymharol Ysgolion (rhif 2) (gan gynnwys meincnodi prydau ysgol am ddim (FSM)) a rhyddhau Adroddiad Cymharol Ysgolion (Profion Cenedlaethol).	<b>Dod i ben</b>
11.	Wythnos gyntaf Medi	Datganiad 1	Setiau Data Craidd Ysgol, Awdurdod Lleol a Chymru Gyfan. Datganiad yn cynnwys data cyd-destunol a pherfformiad terfynol CS/CA2 a CA3, ond yn hepgor data Prydau Ysgol am Ddim (FSM)/heb fod yn FSM. Nid yw'r data FSM/heb fod yn FSM ar gael hyd nes fis Rhagfyr. Mae'n cynnwys presenoldeb uwchradd terfynol ac eithrio FSM/heb fod yn FSM.	<b>Dod i ben</b> – Pecynnau Perfformiad CS, CA2 a CA3 <b>Parhau</b> – Pecynnau cyd-destunol CS, CA2, CA3 ond hepgor y tabl perfformiad. <b>Parhau</b> – Pecynnau presenoldeb uwchradd.
12.	Medi	Datganiad	Bwletin ystadegol – Gwaharddiadau o ysgolion	<b>Parhau</b> – ar lefel Cymru yn unig

13.	Canol Medi	Casgliad	Cyflwyno casgliadau Presenoldeb Cynradd i Lywodraeth Cymru. Fodd bynnag, bydd yr ysgol yn eu cyflwyno i'r awdurdod lleol cyn hyn. Bydd yr awdurdod lleol yn rhoi gwybod i'r ysgol beth yw eu dyddiad cau.	<b>Parhau</b> – dim newid
14.	Medi	Datganiad	Catogoreiddio – data cynradd cam 1 ar gael i'r consortia	<b>Dod i ben</b>
15.	Tymor yr hydref	Cam gweithredu	Trwy gydol tymor yr hydref, dylid defnyddio data a ddarperir gan Lywodraeth Cymru ar gyfer hunanasesu ysgol. Bydd yr hunanasesu'n bwydo i mewn hefyd i osod targedau i'w cytuno gyda'r awdurdod lleol erbyn diwedd mis Rhagfyr.	<b>Dod i ben</b> – Data lefel Cymru YN UNIG fydd yn cael ei ddarparu gan Lywodraeth Cymru.
16.	Dechrau Hydref	Datganiad	Crynodeb Dros Dro o Berfformiad Ysgol Uwchradd – ar gael i ysgolion ac awdurdodau lleol ar gyfer canlyniadau CA4	<b>Parhau</b> – dim newid
17.	Hydref	Datganiad	Bwletin ystadegol – Canlyniadau TGAU dros dro	<b>Parhau</b> – dim newid
18.	Hydref	Datganiad 2a	Setiau Data Craidd Cymru Gyfan. Datganiad i gynnwys canlyniadau Profion Cenedlaethol, ac eithrio data FSM/heb fod yn FSM.	<b>Dod i ben.</b>
19.	Hydref	Datganiad 2	Setiau Data Craidd Cymru Gyfan. Datganiad i gynnwys data perfformiad cyd-destunol a thros dro CA4 a 6 <sup>ed</sup> Dosbarth, gan gynnwys data FSM/heb fod yn FSM.	<b>Parhau</b> – dim newid
20.	Hydref	Datganiad	Dadansoddiadau gwerth ychwanegol dros dro ar gyfer ysgolion uwchradd – darperir i ysgolion ac awdurdodau lleol ar gyfer gwerth ychwanegol (CA2 i CA4) a (CA3 i CA4)	<b>Parhau</b> – dim newid
21.	Hydref	Datganiad	Catogoreiddio – data uwchradd dros dro cam 1 ar gael i'r consortia	<b>Dod i ben</b>
22.	Hydref	Datganiad	Fy Ysgol Leol – diweddariad gyda data cyd-destunol a therfynol CS, CA2 a CA3 ac eithrio data FSM/heb fod yn FSM	<b>Dod i ben</b> – Pob data perfformiad CS, CA2 a CA3 i'w hepgor. <b>Parhau</b> – Pob data arall
23.	Canol Tachwedd	Datganiad	2 <sup>il</sup> grynodedd dros dro o berfformiad ysgol uwchradd – ar gael i ysgolion ac awdurdodau lleol	<b>Parhau</b> – dim newid
24.	Dechrau Rhagfyr	Datganiad	Crynodeb terfynol o berfformiad ysgol uwchradd - ar gael i ysgolion ac awdurdodau lleol	<b>Parhau</b> – dim newid

25.	Canol Rhagfyr	Datganiad 3	Setiau Data Craidd Ysgol, Awdurdod Lleol a Chymru Gyfan. Datganiad i gynnwys data terfynol CA4 yn cynnwys data FSM/heb fod yn FSM; gwerth ychwanegol terfynol; data terfynol 6 <sup>ed</sup> Dosbarth; data FSM/heb fod yn FSM Cyfnod Sylfaen/CA2/CA3; a phresenoldeb cynradd.	<b>Dod i ben</b> – Pecynnau Perfformiad CS, CA2 a CA3. <b>Parhau</b> – Pecynnau perfformiad CA4 a 6 <sup>ed</sup> dosbarth, a phecynnau presenoldeb cynradd.
26.	Canol Rhagfyr	Datganiad	Categoreiddio – data uwchradd terfynol cam 1 ar gael i'r consortia	<b>Dod i ben</b>
27.	Rhagfyr	Datganiad	Fy Ysgol Leol – diweddariad gyda data terfynol CA4 a 6 <sup>ed</sup> Dosbarth	<b>Parhau</b> – dim newid
28.	Rhagfyr	Datganiad	Dadansoddiadau gwerth ychwanegol terfynol ar gyfer ysgolion uwchradd – i'w darparu i ysgolion ac awdurdodau lleol ar gyfer gwerth ychwanegol (CA2 i CA4) a (CA3 i CA4)	<b>Parhau</b> – dim newid
29.	Rhagfyr	Datganiad	Bwletin ystadegol – Canlyniadau TGAU terfynol	<b>Parhau</b> – dim newid
30.	Rhagfyr	Datganiad	Bwletin ystadegol – Cyrhaeddiad FSM/heb fod yn FSM	<b>Parhau</b> – dim newid
31.	Rhagfyr	Datganiad	Bwletin ystadegol – Presenoldeb mewn ysgolion cynradd	<b>Parhau</b> – dim newid
32.	Diwedd Rhagfyr	Cam gweithredu	Mae'n ofynnol i bob ysgol osod targedau a chyflwyno'r rhain i'w hawdurdod lleol i'w cytuno erbyn diwedd mis Rhagfyr. Ers 2011, mae'n ofynnol i bob ysgol osod o leiaf dri tharged lleol sy'n adlewyrchu blaenoriaethau a nodwyd drwy'r broses hunanwerthuso gan ystyried Setiau Data Craidd Cymru Gyfan a gwybodaeth arall am berfformiad. Dylai'r targedau hyn adlewyrchu blaenoriaethau cenedlaethol fel y byddant berthnasol i'r ysgol unigol.	<b>Parhau</b> – Yr angen i osod targed yn parhau, ond ni fydd Setiau Data Craidd Cymru Gyfan yn darparu dadansoddiadau cymharol o ysgolion neu awdurdodau lleol mwyach ar gyfer y Cyfnod Sylfaen, CA2 a CA3 (rhesi 11 a 25)
33.	Canol Ionawr	Casgliad	Diwrnod cyfrifiad CYBLD.	<b>Parhau</b> – dim newid
34.	Diwedd Ionawr	Datganiad	Categoreiddio – data cynradd terfynol cam 1 ar gael i'r consortia	<b>Dod i ben</b>
35.	Diwedd Ionawr	Datganiad	Fy Ysgol Leol – diweddariad gyda chategoreiddio cam 2 ar gyfer cynradd ac uwchradd, a chyda data FSM/heb fod yn FSM CS, CA2 a CA3 a data presenoldeb	<b>Dod i ben</b> – Pob data perfformiad CS, CA2 a CA3 eisoes wedi'i hepgor. <b>Parhau</b> – categoreiddio cam 2

36.	Ionawr	Datganiad	Bwletin ystadegol – Cyrhaeddiad yn ôl nodweddion disgyblion	<b>Parhau</b> – dim newid. Dim data awdurdod lleol yn cael ei gyhoeddi ar hyn o bryd.
37.	Canol Mawrth	Casgliad	Data CYBLD i'w anfon at Lywodraeth Cymru. Bydd ysgolion yn cyflwyno data i'w hawdurdod lleol cyn hyn. Bydd yr awdurdod yn rhoi gwybod i'r ysgol beth yw eu dyddiad cau.	<b>Parhau</b> – dim newid
38.	Mawrth	Datganiad	Bwletin ystadegol – Absenoldeb yn ôl nodweddion disgyblion.	<b>Parhau</b> – dim newid. Dim data awdurdod lleol yn cael ei gyhoeddi ar hyn o bryd.
39.	Canol Mai	Casgliad	Dyddiad cofrestru ar gyfer disgyblion sydd i'w cynnwys yn natganiad Casglu Data Cenedlaethol y data asesiadau athro ar gyfer asesiad sylfaenol a diwedd y Cyfnod Sylfaen, CA2 a CA3.	<b>Parhau</b> – dim newid
40.	Canol Mai	Casgliad	Dyddiad cofrestru ar gyfer disgyblion sydd i'w cynnwys yn natganiad canlyniadau Prawf Cenedlaethol Cymru ar gyfer blynyddoedd 2-9 y cwricwlwm cenedlaethol.	<b>Parhau</b> – dim newid
41.	Canol Mehefin	Casgliad	Data asesiadau athro Casglu Data Cenedlaethol o gyrhaeddiad disgyblion ar gyfer asesiad sylfaenol ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen, CA2 a CA3 i'w hanfon at Lywodraeth Cymru. Bydd ysgolion yn cyflwyno data i'w hawdurdod lleol cyn hyn. Bydd yr awdurdod yn rhoi gwybod i'r ysgol beth yw eu dyddiad cau.	<b>Parhau</b> – dim newid. Rhagdybir y bydd yn parhau ar y sail fod Ysgolion Arloesi yn gallu darparu data asesiadau athro gan ddefnyddio'r fframwaith asesu presennol.
42.	Canol Mehefin	Casgliad	Canlyniadau Prawf Cenedlaethol Cymru ar gyfer blynyddoedd 2-9 y cwricwlwm cenedlaethol i'w hanfon at Lywodraeth Cymru. Bydd ysgolion yn cyflwyno data i'w hawdurdod lleol cyn hyn. Bydd yr awdurdod yn rhoi gwybod i'r ysgol beth yw eu dyddiad cau.	<b>Parhau</b> – dim newid
43.	Fel y bo ar gael o ganol Mai / Mehefin ymlaen	Datganiad	Bydd cyflwyno Casglu Data Cenedlaethol yn cynhyrchu Adroddiad Cymharol Ysgolion (Rhif 1) sy'n benodol i bob ysgol. Mae pob adroddiad yn cynnwys y data asesiadau athro ar gyfer y flwyddyn honno a data cymharol yr awdurdod lleol o'r flwyddyn flaenorol. Nid yw'n cynnwys data meincnodi.	<b>Dod i ben ( 2019)</b>
44.	Canol Mehefin	Casgliad	Data presenoldeb ysgolion uwchradd i'w hanfon at Lywodraeth Cymru. Bydd ysgolion yn cyflwyno data i'w hawdurdod lleol cyn hyn. Bydd yr awdurdod yn rhoi gwybod i'r ysgol beth yw eu dyddiad cau.	<b>Parhau</b> – dim newid

